| Elusen Ogwen | Elusen Ogwen |
| --- | --- |
| Adroddiad Blynyddol yr Ymddiriedolwyr ar gyfer y deuddeg mis yn diweddu 31 Mawrth 2023 | Trustee Annual Report for the twelve months ended 31st March 2023 |
| **Math o Elusen a Rhif Elusen** | **Type of Charity & Charity Number** |
| Sefydliad Corfforedig Elusennol (model Sylfaen) Rhif: 1192642 | Charitable Incorporated Organisation (Foundation model) No: 1192642 |
| Cyfansoddiad: 4 Rhagfyr 2020 | Constitution: 4th December 2020 |
| **Ymddiriedolwyr** | **Trustees** |
| Lowri Williams (Cadeirydd)<br>Nigel Beidas (Trysorydd)<br>Brian Jones<br>Caren Brown<br>Dafydd Roberts<br>Elin Iolen Rhys | Lowri Williams (Chair)<br>Nigel Beidas (Treasurer)<br>Brian Jones<br>Caren Brown<br>Dafydd Roberts<br>Elin Iolen Rhys |
| Mae'r ymddiriedolwyr yn wirfoddolwyr, ac maent yn cael eu penodi am gyfnodau o naill ai dwy neu dair blynedd. Caiff cais i fod yn ymddiriedolwr ei ystyried a'i benderfynu drwy bleidlais gan ymddiriedolwyr presennol. | Trustees are volunteers and are appointed for periods of either two or three years. An application to be a trustee is considered and voted on by existing trustees. |
| Ymddiswyddodd Arwyn Oliver fel Ymddiriedolwr ym mis Hydref 2022, a diolchwn iddo am ei gyfraniad gwerthfawr i'r gwaith o sefydlu'r elusen. | Arwyn Oliver resigned as a Trustee in October 2022, and we thank him for his valuable contribution to the setting up of the charity. |
| **Cyfeiriad Cofrestredig** | **Registered Address** |
| Cilwern<br>14 Ffordd Gerlan<br>Bethesda<br>LL57 3ST | Cilwern<br>14 Ffordd Gerlan<br>Bethesda<br>LL57 3ST |
| **Bancwyr** | **Bankers** |
| Banc NatWest CCC | Natwest Bank PLC |
| **Cyfeiriad e-bost** | **Contact Email** |
| elusenogwen@gmail.com | elusenogwen@gmail.com |

**Amcanion yr Elusen**

Mae Elusen Ogwen yn cefnogi cynlluniau fydd yn gwella ansawdd bywyd trigolion, grwpiau a chymunedau yn Nyffryn Ogwen. Mae'n gwneud hynny drwy ddosbarthu rhan o'r elw o gynlluniau ynni Ynni Ogwen. Mae grwpiau cymunedol yn gallu ymgeisio am gefnogaeth ar gyfer prosiectau fydd o les i drigolion Dyffryn Ogwen. Mae Elusen Ogwen yn gallu cyfrannu at brosiectau cyfalaf a refeniw sy'n bodloni un neu fwy o'r amcanion canlynol:

- Lleihau tlodi tanwydd a thlodi cymdeithasol
- Datblygu prosiectau ynni adnewyddadwy
- Hybu trafnidiaeth gynaliadwy a theithio actif
- Arbed ynni
- Cysylltu unigolion o bob oed â'r amgylchedd
- Lleihau gwastraff
- Annog unigolion i wirfoddoli mewn prosiectau amgylcheddol yn eu cymunedau
- Gwella ansawdd yr amgylchedd lleol
- Cynyddu cynhyrchu / prynu cynnyrch bwyd lleol

**Adroddiad ar gyfer y deuddeg mis yn diweddu 31 Mawrth 2023**

Cafodd Elusen Ogwen flwyddyn lwyddiannus, gan ddosbarthu grantiau gwerth cyfanswm o £15,675, o gymharu â £8,452 yn y flwyddyn ariannol flaenorol (a oedd yn cwmpasu cyfnod o bymtheg mis).

Rydym yn ddiolchgar iawn am gefnogaeth barhaus Ynni Ogwen; derbyniwyd cyfanswm o £13,000 ganddynt yn ystod y flwyddyn. Ar ben hyn, derbyniwyd dau rodd arall, sef £50 gan Ynni Lleol, a £6,379 gan NFU Mutual a diolchwn i'r ddau sefydliad am eu cymorth. O ganlyniad, cyfanswm ein hincwm am y flwyddyn oedd £19,429.

Mae'r Ymddiriedolwyr wedi bod yn ymwybodol iawn o'r argyfwng costau byw a achoswyd gan y cynnydd sydyn ym mhrisiau ynni ac roedd bron i 60% o'r grantiau a roddwyd yn ystod y flwyddyn yn ymwneud â lleihau costau i unigolion a sefydliadau yn yr ardal.

Fe wnaethom helpu i ariannu dau brosiect a oedd â'r nod o leihau costau i drigolion lleol. Un o'r rhain oedd cynllun arloesol wedi'i redeg gan PETHA i gasglu, golchi a phecynnu gwisgoedd ysgol a'u pasio ymlaen i deuluoedd newydd. A'r ail o'r rhain oedd cynllun Dyffryn Gwyrdd i ddarparu bylbiau golau sy'n arbed

**Charity Objectives**

Elusen Ogwen supports initiatives that will improve the quality of life of the residents, groups and communities of Dyffryn Ogwen. It does so by distributing some of the profits from Ynni Ogwen's energy schemes. Community groups can apply for support for projects that will benefit the residents of Dyffryn Ogwen. Elusen Ogwen can contribute to capital and revenue projects that meet one or more of the following objectives:

- Reduce fuel and social poverty
- Develop renewable energy projects
- Promote sustainable transport and active travel
- Save energy
- Connect individuals of all ages to the environment
- Minimize waste
- Encourage individuals to volunteer in environmental projects in their communities
- Improve the quality of the local environment
- Increase production / purchase of local food products

**Report on the twelve months ending 31st March 2023**

Elusen Ogwen had a successful year, distributing grants totalling £15,675, compared to £8,452 in the previous financial year (which covered a period of fifteen months).

We are very grateful for Ynni Ogwen's continued support; a total of £13,000 was received from them during the year. In addition, two further donations were received, namely £50 from Energy Local, and £6,379 from NFU Mutual and we thank both organizations for their support. As a result, our total income for the year was £19,429.

The Trustees have been very aware of the cost of living crisis caused by the sudden increase in energy prices and almost 60% of the grants given during the year were related to reducing costs for individuals and organizations the area.

We helped fund two projects which aimed to reduce costs for local residents. One of these was an innovative scheme run by PETHA to collect, wash and package school uniforms and pass them on to new families. The second of these was Dyffryn Gwyrdd's scheme to provide low energy light bulbs in family

| | |
|---|---|
| ynni mewn pecynnau teulu a oedd yn cael eu dosbarthu trwy ysgolion lleol. | packs which were distributed through local schools. |
| Roedd lleihau costau ynni neu ddarparu ynni mwy cynaliadwy ar gyfer sefydliadau hefyd yn thema yn y grantiau a roddwyd gennym. Talwyd grant i glwb gymnasteg Dreigiau'r Dyffryn i osod goleuadau LED sy'n fwy effeithlon na'r goleuadau presennol ar eu safle. Talwyd grant hefyd i Asynnod Eryri, elusen sy'n hybu iechyd a lles plant ac oedolion, ar gyfer gosod panel solar ar eu safle. | Reducing energy costs or providing more sustainable energy for organizations was also a theme in the grants we gave. A grant was paid to the Dreigiau'r Dyffryn gymnastics club to install LED lights that are more efficient than the current lights on their site. A grant was also paid to Snowdonia Donkeys, a charity that promotes the health and well-being of children and adults, for the installation of a solar panel on their site. |
| Un o amcanion Elusen Ogwen yw cysylltu unigolion o bob oed â'r amgylchedd ac yn hyn o beth, roedden ni'n falch o ddarparu cyllid ar gyfer gardd yn yr ysgol feithrin leol, Cylch Meithrin Tregarth. Fe wnaethom hefyd ariannu dau brosiect i godi ymwybyddiaeth amgylcheddol pobl iau; trefnwyd y naill o'r rhain gan Barc Coed Moch a'r llall gan Bwyd am Byth CIC. | One of the objectives of Elusen Ogwen is to connect individuals of all ages with the environment and in this regard, we were pleased to provide funding for a garden at the local nursery school, Cylch Meithrin Tregarth. We also funded two projects to raise environmental awareness among younger people; one of these was organized by Parc Coed Moch and the other by Bwyd am Byth CIC. |
| Talwyd dau grant bach pellach, un i Gymdeithas Rhieni ac Athrawon Ysgol Llanllechid i helpu gydag ailgylchu ac un i Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru ar gyfer gwella'r llwybrau mewn gwarchodfa natur leol. | Two further small grants were paid, one to Ysgol Llanllechid's Parent and Teacher Association to help with recycling and one to the North Wales Wildlife Trust for improving the paths in a local nature reserve. |
| Cadwyd costau gweithredu i'r lleiafswm, gyda'r elusen yn gwario dim ond £232 ar hysbysebu a llogi ystafell gyfarfod. | Operating expenses were kept to a minimum, the charity spending just £232 on advertising and room rental. |
| Ar ddiwedd y flwyddyn ariannol roedd gan yr elusen gronfeydd wrth gefn o £20,040. | The charity ended the financial year with reserves of £20,040. |
| Rydym yn parhau i roi cyhoeddusrwydd i waith yr elusen ac edrychwn ymlaen at ddarparu grantiau pellach yn y flwyddyn ariannol i ddod. | We continue to publicise the work of the charity and look forward to providing further grants in the coming financial year. |
| **Polisi Cronfeydd wrth Gefn** | **Reserves Policy** |
| Mae gan yr elusen bolisi o gynnal o leiaf £500 yn gronfeydd wrth gefn er mwyn gwastatau amrywiadau mewn incwm a gwariant yn ystod y flwyddyn ariannol. Bydd arian wrth gefn ychwanegol yn cael ei gadw pan fyddwn wedi cytuno i ariannu prosiectau dros fwy na blwyddyn. | The charity has a policy of maintaining at least £500 by way of reserves in order to even out fluctuations in income and expenditure during the financial year. Additional reserves will be held where we have agreed to fund projects over more than one year. |
| Mae lefel bresennol y cronfeydd wrth gefn yn sylweddol uwch na'r isafswm oherwydd yr oedi cyn gwahodd ceisiadau grant yn sgil cyfyngiadau COVID-19 yn 2020/21 ac incwm uwch na'r disgwyl yn 2022/3. Yn ystod y flwyddyn, codwyd uchafswm y | The current level of reserves is higher than the minimum because of the delay to opening up invitations for grant applications produced by COVID-19 restrictions in 2020/21 and higher than expected income in 2022/3. During the year we increased the |

| | |
|---|---|
| grantiau i £3,000 er mwyn sicrhau nad oedd y cronfeydd wrth gefn yn cynyddu. Rhagwelwn y bydd lefel y cronfeydd wrth gefn yn gostwng yn y flwyddyn ariannol nesaf wrth i grantiau pellach gael eu dyfarnu. Byddwn hefyd yn parhau i adolygu ein polisi rhoi grantiau.<br><br>**Datganiad Budd Cyhoeddus**<br><br>Mae'r ymddiriedolwyr yn cadarnhau eu bod wedi ystyried yr arweiniad a gyhoeddwyd gan y Comisiwn Elusennau ynghylch budd cyhoeddus.<br><br>Cymeradwywyd gan yr Ymddiriedolwyr<br>18 Ebrill 2023 | maximum grant size to £3,000 in order to prevent a build up of reserves and we anticipate that the level of reserves will decline in the next financial year as further grants are made. We will also continue to keep our grant making policy under review.<br><br>**Public Benefit Statement**<br><br>The trustees confirm that they have had regard to the guidance issued by the Charity Commission on public benefit.<br><br>Approved by the Trustees<br>18 April 2023 |

| Enw/Name | Llofnod/Signature | Swydd/Position | Dyddiad/Date |
|---|---|---|---|
| | | | |
| | | | |